Papur Ymgynghorol Awdurdod S4C - Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Ysgrifennaf yr ymateb canlynol ar ran Estyn ynglŷn â Phapur Ymgynghorol Awdurdod S4C - Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol.

Mae Estyn yn dymuno'n dda i Awdurdod S4C wrth ymgynghori ynglŷn â Phapur Ymgynghorol Awdurdod S4C - Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol. Nid yw'n briodol i Estyn gynnig sylwadau manwl ar yr opsiynau a gynigir yn y papur.

Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad S4C i hybu'r iaith Gymraeg ar gyfer plant Cymru wrth ddarparu rhaglenni gwreiddiol yn y Gymraeg. Mae nifer helaeth o blant Cymru wedi elwa'n fawr o wylio rhaglenni Cymraeg i blant meithrin, boed yn Gymry Cymraeg neu'n ddysgwyr. Yn aml gwylio rhaglenni teledu Cymraeg yw un o'r cysylltiadau cynharaf i blant gartrefi di-Gymraeg gyda'r iaith.

Mae gwylio rhaglenni teledu Cymraeg yn fodd i ddisgyblion cynradd ac uwchradd sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg ymestyn oriau cyswllt â'r iaith Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Trwy wylio rhaglenni teledu Cymraeg mae disgyblion hefyd yn dysgu ac atgyfnerthu geirfa a chystrawen yr iaith. Maent hefyd yn dod yn gyfarwydd ag amrywiaeth o acenion a thafodieithoedd y Gymraeg wrth wylio a mwynhau rhaglenni Cymraeg.